Hawdd ei Ddeall

# Gweithio dros gydraddoldeb yng Nghymru

- Y pethau mae Llywodraeth Cymru wedi'u gwneud rhwng Ebrill 2015 a Mawrth 2016 i gefnogi cydraddoldeb yng Nghymru
- Y pethau mae gwasanaethau cyhoeddus wedi'u gwneud i gefnogi cydraddoldeb yng Nghymru ers 2014

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk



Fersiwn hawdd ei ddeall yw hwn o **Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb 2015-2016 ac Adroddiad Dros Dro Gweinidogion Cymru ar Gydraddoldeb 2016** Llywodraeth Cymru.

**Chwefror 2017**

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon




Fersiwn hawdd ei ddeall yw hwn. Mae'r geiriau a'r hyn maen nhw'n feddwl yn hawdd i'w darllen a'u deall.



Efallai na fedrwch chi ddarllen a deall y ddogfen hon heb help. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.

Efallai bydd rhai geiriau yn anodd i'w deall. Mae'r rhain wedi cael eu hysgrifennu mewn **glas trwm** a dywedir beth maen nhw'n feddwl mewn bocs o dan y gair.

Os bydd unrhyw un o'r geiriau yn cael ei ddefnyddio eto yn y llyfryn bydd yn cael ei ddangos mewn ysgrifennu glas cyffredin. Os gwelwch chi eiriau mewn ysgrifennu glas cyffredin, gallwch edrych beth maen nhw'n feddwl mewn rhestr o'r **Geiriau anodd** ar dudalen 40.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Pan fydd y ddogfen yn dweud 'ni', mae hyn yn meddwl Llywodraeth Cymru.

Learning Disability Wales
Anabledd Dysgu Cymru

Cafodd y ddogfen hon ei gwneud yn hawdd ei deall gan Anabledd Dysgu Cymru gan ddefnyddio Photosymbols.

# Cynnwys

**Tudalen**

Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon ........................................ 2

Cyflwyniad i gydraddoldeb ........................................ 4

Beth y mae'r ddeddf yn ei ddweud am gydraddoldeb ........................................ 6

Ein cynllun ar gyfer cydraddoldeb ........................................ 9

Yr 8 amcan ar gyfer cydraddoldeb yng Nghymru ........................................ 10

- Amcan 1 ........................................ 10
- Amcan 2 ........................................ 12
- Amcan 3 ........................................ 17
- Amcan 4 ........................................ 18
- Amcan 5 ........................................ 22
- Amcan 6 ........................................ 26
- Amcan 7 ........................................ 30
- Amcan 8 ........................................ 31

Beth nesaf? ........................................ 33

Adroddiad ar gydraddoldeb gan Weinidogion Cymru ........................................ 36

Geiriau anodd ........................................ 40

# Cyflwyniad i **gydraddoldeb**




Mae **cydraddoldeb** yn meddwl trin pobl yn deg a gwneud yn siŵr eu bod nhw'n cael yr un cyfleoedd.



Mae Cymru yn wlad **amrywiaethol**.

Mae **amrywiaethol** yn meddwl cael pobl o wahanol o grwpiau. Er enghraifft, dynion a menywod neu hen ac ifainc.


Mae pobl yng Nghymru:



- yn dod o wahanol gefndiroedd a diwylliannau



- yn medru gwneud gwahanol bethau yn dda



- yn credu gwahanol bethau



- yn bobl sydd â gwahanol hunaniaethau rhywiol



- yn gwneud gwahanol ddewisiadau ynglŷn â sut i fyw eu bywydau



- o wahanol oedrannau.



Weithiau mae bod yn wahanol yn meddwl nad oes gennych chi'r un cyfleoedd â phobl eraill. Mae hyn yn cael ei alw'n **wahaniaethu**.

Mae **gwahaniaethu** yn digwydd pan fyddwch chi'n cael eich trin yn annheg.




Mae gwahaniaethu yn erbyn y gyfraith.




Byddwn yn meddwl am gydraddoldeb wrth wneud cynlluniau a gwario arian.



Mae arnon ni eisiau gwario arian ar bobl sydd â'r anghenion mwyaf.



Mae arnon ni eisiau rhoi'r un cyfleoedd i bawb. Mae arnon ni eisiau rhoi diwedd ar wahaniaethu.




# Beth y mae'r ddeddf yn ei ddweud am gydraddoldeb

Mae **Deddf Cydraddoldeb (2010)** yn ddeddf i wneud yn siŵr bod pawb yn cael yr un cyfleoedd.

Mae'r **Ddeddf Cydraddoldeb** yn dweud bod gan bawb yr hawl i:



- gael eu trin yn deg



- cael yr un cyfleoedd â phawb arall



- cael neb yn **gwahaniaethu** yn eu herbyn.

Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn amddiffyn pobl rhag cael neb yn gwahaniaethu yn eu herbyn. Mae pobl yn medru gwahaniaethu yn erbyn llawer o bobl gan gynnwys:



- dynion a menywod



- pobl anabl




- pobl sydd â **phroblemau iechyd meddwl** – sydd angen cefnogaeth â'u meddyliau a'u teimladau



- pobl o wahanol oed – pobl ifainc a phobl hŷn



- pobl sy'n dod o wahanol wledydd neu ddiwylliannau – sydd efallai'n byw mewn ffordd wahanol neu sydd â lliw croen gwahanol



- pobl o wahanol grefyddau – neu bobl sydd heb grefydd



- menywod sy'n disgwyl babi neu sy'n bwydo o'r fron




- **menywod lesbiaidd** – menywod sy'n cael eu denu gan fenywod eraill



- **dynion hoyw** – dynion sy’n cael eu denu gan ddynion eraill



- **dynion a menywod deurywiol** – pobl sy’n cael eu denu gan ddynion a merched



- **pobl drawsrywiol** – pobl sydd wedi’u geni’n un rhyw ond sydd am fyw fel rhyw arall. Er enghraifft, gall person sy’n edrych fel dyn deimlo fel menyw y tu mewn

Mae pobl yn gwahaniaethu yn erbyn rhywun am fwy nag un rheswm. Er enghraifft:




- am ei bod yn fenyw ac yn anabl



- oherwydd crefydd a rhywioldeb

# Ein cynllun ar gyfer cydraddoldeb




Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn dweud bod yn rhaid i ni gael cynllun cydraddoldeb. Fe ofynnon ni i bobl beth ddylai fod yn ein cynllun cydraddoldeb cyntaf ar gyfer Cymru.




Roedd ein cynllun cydraddoldeb cyntaf am bedair blynedd o Ebrill 2012-Mawrth 2016.




Mae fersiwn hawdd ei ddeall o'n cynllun cydraddoldeb cyntaf. Mae hwn yn cael ei alw'n **'Cymru Gyfartal: Ein cynlluniau ar gyfer gwneud Cymru'n lle tecach i fyw a gweithio ynddo 2012-2016'**




Fe wnaethon ni gytuno ar 8 o bethau pwysig i wneud Cymru'n lle tecach i fyw. Mae'r rhain yn cael eu galw'n **amcanion cydraddoldeb**.

Rydyn ni'n cyfarfod â grwpiau o wahanol bobl. Maen nhw'n ein helpu ni i:



- ddeall pa bethau sy'n bwysig ar gyfer gwahanol bobl



- edrych pa mor dda rydyn ni'n gwneud er mwyn cael Cymru'n gyfartal

# Yr 8 amcan ar gyfer cydraddoldeb yng Nghymru

## Amcan 1:



## Helpu pobl i gael cyngor a gwybodaeth i ddeall eu hawliau a gwneud dewisiadau




Mae gwasanaethau cyngor a gwybodaeth yn cefnogi pobl sydd â phroblemau. Maen nhw'n helpu pobl i ddeall eu hawliau a gwneud dewisiadau.

## Y pethau rydyn ni wedi'u gwneud





Fe wnaethon roi arian ar gyfer cyngor arbennig ar broblemau â:

- budd-daliadau



- cartrefu



- bod mewn dyled (bod arnoch chi arian i bobl)



- gwahaniaethu.




Gyda’r cyngor hwn cafodd llawer o bobl fwy o fudd-daliadau.



Cafodd bron i ddwy fil o bobl gyngor ynghylch budd-daliadau i blant anabl.



Mae’r **Rhwydwaith Cynghori Cenedlaethol** yn gwneud yn siŵr bod pawb yng Nghymru yn cael cyngor a chefnogaeth dda. Maen nhw’n gwneud yn siŵr bod y gwasanaethau cynghori yn y mannau sydd eu hangen.



Y flwyddyn hon fe edrychodd y **Rhwydwaith Cynghori Cenedlaethol** ble mae gwasanaethau cynghori ar gael. Fe fyddan nhw’n rhoi map ar y rhyngrwyd yn dangos ble mae’r gwasanaethau cynghori.

# Amcan 2:



## Ei gwneud hi'n haws i bawb weithio, cael eu trin yn deg yn y gweithle a chael eu talu'n gyfartal

Rydyn ni wedi edrych ar dri pheth sy'n helpu menywod, pobl anabl a phobl o ddiwylliannau eraill ddod o hyd i waith:



1. Gofal plant.



2. Addysg.



3. Cyfleoedd gwaith.

## Y pethau rydyn ni wedi'u gwneud



### 1. Gofal plant

Mae'n rhaid i'r **awdurdod lleol** wneud yn siŵr bod digon o ofal plant ar gyfer rhieni sy'n gweithio.



Yr **awdurdod lleol** yw'r Cyngor Sir. Maen nhw'n darparu llawer o wasanaethau fel gwasanaethau cymdeithasol, addysg a ffyrdd.



Yn 2015 edrychodd yr awdurdodau lleol faint o ofal plant sydd ar gael. Dangosodd hyn bod digon ar gael ym mhobman bron. Weithiau yng nghefn gwlad does dim llawn digon.




Y prif broblem ar gyfer rhieni yw bod costau gofal plant wedi mynd i fyny. Mae **Dechrau'n Deg** yn rhoi gofal plant am ddim mewn cymunedau tlawd.

Mae **Dechrau'n Deg** yn cefnogi plant 0-3 mlwydd oed mewn cymunedau tlawd. Mae'n cynnig dosbarthiadau i rieni, lle mewn meithrinfa am ddim a gofal iechyd ychwanegol.



Mae un o bob pedwar o blant 0-3 mlwydd oed yng Nghymru yn cael ei gefnogi gan Dechrau'n Deg. Mae hyn yn fwy na'r flwyddyn ddiwethaf.




Fe wnaethon ni roi arian ar gyfer clybiau ar ôl ysgol a chynlluniau chwarae yn ystod y gwyliau.




Fe wnaethon ni roi arian i **Deuluoedd yn Gyntaf**. Maen nhw'n cefnogi teuluoedd sy'n dlawd neu deuluoedd sy'n cynnwys person anabl

## 2. Addysg

Fe ddechreuon ni **grant** newydd sy'n cael ei alw'n **Grant Gwella Addysg**.




Bydd rhywun yn cael **grant** pan fydd mudiad yn rhoi arian i helpu talu am rywbeth.



Mae'r grant er mwyn helpu i wella addysg. Mae ar gyfer pob plentyn a phobl ifainc rhwng 3 ac 19 oed. Mae ar gyfer ysgolion ac awdurdodau lleol i:



- helpu athrawon ddysgu yn well a chefnogi plant i ddysgu



- delio â phethau sy'n rhwystro plant rhag ddysgu




- gwneud ysgolion yn well lleoed

## 3. Cyfleoedd gwaith



Weithiau mae pobl yn meddwl nad yw merched a menywod yn dda mewn gwyddoniaeth. Fe edrychon ni ar y pethau sy’n rhwystro menywod a merched rhag gwneud:



- gwyddoniaeth




- **technoleg**

**Technoleg** yw pethau fel cyfrifiaduron, ffonau symudol ac offer eraill i helpu pobl i wneud pethau’n haws ac yn gyflymach.




- mathemateg



- **peirianneg**

Mae **peirianneg** yn meddwl gwneud neu atgyweirio pethau fel peiriannau, injans, ffyrdd a phontydd.



Mae arnon ni angen mwy o fenywod a merched i ddysgu am wyddoniaeth, technoleg, mathemateg a pheirianneg a gweithio yn y meysydd hyn.



Fe wnaethon ni gychwyn grŵp i edrych beth sy’n rhwystro hyn rhag digwydd.




Fe ysgrifennodd y grŵp adroddiad ynghylch yr hyn rydyn ni’n gallu ei wneud i gael mwy o fenywod a merched i wneud gwyddoniaeth, technoleg, mathemateg a pheirianneg.



Fe wnaeth arian o Ewrop dalu am brosiect i edrych pam nad yw menywod yn aml yn cael eu talu cymaint â dynion.



Gweithiodd y prosiect gyda chwmnïau mawr i ddod o hyd i ffyrdd o wneud swyddi a thâl yn decach ar gyfer merched



# Amcan 3:

## Cefnogi pobl ifainc i fynd i'r coleg, dysgu medrau a chael gwaith



Mae llawer o bobl ifainc sydd ddim mewn ysgol, hyfforddiant na gwaith. Mae hyn yn fwy tebygol gyda phobl anabl neu bobl sydd ddim yn siarad Saesneg yn dda.

## Y pethau rydyn ni wedi'u gwneud

Twf Swyddi Cymru
Jobs Growth Wales

Mae **Twf Swyddi Cymru** yn brosiect i helpu pobl ifainc gael gwaith. Rydyn ni'n cael arian o Ewrop i helpu â hyn. Mae pobl ifainc yn cael gwaith gyda thâl am chwe mis. Mae'r rhan fwyaf o bobl ifainc yn symud ymlaen i gael gwaith parhaol ar ôl bod ar **Twf Swyddi Cymru**.




Mae gennym ni gynllun newydd sy'n helpu pobl ifainc sy'n cael problemau i gael gafael ar swydd. Rydyn ni'n rhoi cefnogaeth ychwanegol iddyn nhw yn eu bywydau.




Mae'r cynllun hwn yn gwneud yn dda.

GyrfaCymru
CareersWales

Mae **Gyrfa Cymru** yn cefnogi pobl ifainc 16-18 mlwydd oed i ddod o hyd i waith neu hyfforddiant.

# Amcan 4:



## Rhoi diwedd ar gam-drin a throsedd casineb fel bo Cymru'n lle mwy diogel i fyw ynddo

Mae **trosedd casineb** yn digwydd pan fydd dioddefwr yn meddwl bod trosedd wedi digwydd oherwydd pwy ydyn nhw.

Mae arnon ni eisiau rhoi diwedd ar:



- bwlio



- cam-drin pobl hŷn.



- drosedd casineb



- **cam-drin yn y cartref**

Mae **cam-drin yn y cartref** yn cynnwys rhywun yn dweud wrthych chi eich bod chi'n dda i ddim, rhywun yn pigo arnoch chi, cael eich dyrnu, cael eich taro, cael eich bygwth neu eich llofruddio gan rywun sy'n byw gyda chi neu rywun oedd yn arfer byw gyda chi.

Mae menywod, dynion a phlant i gyd yn gallu dioddef cam-drin yn y cartref. Mae'n gallu effeithio ar bobl o unrhyw oed neu gefndir.

- **trais yn erbyn menywod**



Mae **trais** yn rhywbeth sy'n brifo person arall. Mae **trais yn erbyn menywod** yn cynnwys:

- trais yn y cartref
- defnyddio rhyw i'ch brifo, eich rheoli neu eich dychryn chi
- treisio
- priodas orfod
- **troseddau er dyletswydd**

Mae **troseddau er dyletswydd** yn digwydd pan fydd rhywun yn cael ei gosbi oherwydd eu bod wedi mynd yn erbyn beth sydd ar y teulu neu'r gymuned ei eisiau. Gall hyn gynnwys llofruddiaeth.

# Y pethau rydyn ni wedi eu gwneud

## 1. Trosedd casineb



Mae gennym ni grŵp sy'n edrych pa mor dda mae'r cynllun trosedd casineb yn gweithio. Mae'r grŵp yn cynnwys pobl o bob cefndir. Fe ysgrifennon nhw adroddiad sydd ar ein gwefan ni.




Fe wnaethon ni roi arian i **Gymorth i Ddioddefwyr Cymru.** Mae adroddiadau am drosedd casineb yn cael eu hanfon atyn nhw. Fe gefnogon nhw dros ddwy fil o bobl ynghylch trosedd casineb yn 2015-2016.




Mae wythnos ymwybyddiaeth o drosedd casineb ym mis Hydref. Fe wnaethon ni roi arian i'r heddlu i ddweud wrth bawb am drosedd casineb yn yr wythnos honno. Ym mis Tachwedd fe ddywedodd hyd yn oed mwy o bobl wrth yr heddlu am drosedd casineb felly fe weithiodd yn dda.

## 2. Cam-drin yn y cartref a thrais yn erbyn menywod




Dechreuodd ein deddf newydd ar gam-drin yn y cartref a thrais yn erbyn menywod yn 2015. Mae'r ddeddf yn dweud bod yn rhaid i bob **gwasanaeth cyhoeddus** wneud cynlluniau ynghylch sut i roi diwedd ar hyn.

Mae **gwasanaethau cyhoeddus** yn cynnwys iechyd, cartrefu, gwasanaethau cymdeithasol a chludiant.



Yn awr mae gennym ni Rhian Bowen-Davies i roi cyngor i ni ar drais yn y cartref a thrais yn erbyn menywod. Bydd yn ein helpu i feddwl beth sydd arnon ni angen ei wneud. Bydd hi'n helpu i ysgrifennu cynlluniau i roi diwedd ar gam-drin yn y cartref a thrais yn erbyn menywod.

## 3. Torri organau rhywiol merched



Mae **torri organau rhywiol menywod** yn digwydd pan fydd rhannau preifat merch yn cael eu torri ac weithiau eu gwnïo i fyny. Mae hyn yn cael ei wneud oherwydd gwahanol resymau diwylliannol.




Mae torri organau rhywiol menywod yn erbyn y gyfraith yng Nghymru. Mae'n rhaid dweud wrth yr heddlu pan fydd rhywun yn meddwl bod hyn yn digwydd.




Fe wnaethon ni roi arian ar gyfer prosiect i weithio gyda menywod ifainc i edrych ar hyn. Fe wnaethon nhw fideo a phoster oedd yn cael ei alw'n '**Voices over Silence**'. Rydyn ni'n gobeithio y bydd yn helpu menywod eraill i siarad am dorri organau rhywiol merched.



# Amcan 5:

## Cefnogi pobl anabl i fyw'n annibynnol



Mae byw'n annibynnol yn gadael i bobl anabl fyw y bywyd mae arnyn nhw eisiau ei fyw. Yn y ffordd y maen nhw'n dewis.

## Y pethau rydyn ni wedi eu gwneud

Mae gan ein Cynllun ar gyfer Byw'n Annibynnol saith prif fwriad.

### 1. Cyngor, gwybodaeth ac eiriolaeth y gall pobl anabl ei ddefnyddio



Mae **eiriolwr** yn rhywun sy'n medru siarad ar eich rhan neu eich helpu chi i siarad drosoch chi eich hun.



Mae gennym ni brosiect sy'n helpu pobl anabl ddefnyddio'r rhyngrwyd.




Mae deddf newydd sy'n cael ei alw'n **Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)** yn dweud bod arnon ni angen canolfannau cyngor a gwybodaeth. Bydd gan y canolfannau hyn wybodaeth dda ar gyfer pobl anabl.

## 2. Tai y gall pobl anabl fyw'n hawdd ynddyn nhw



Rydyn ni wedi edrych beth sy'n ei gwneud hi'n hawdd i bobl anabl fyw yn eu cartrefi eu hunain. O 2017 fe fyddwn ni'n defnyddio'r wybodaeth hon i'n helpu ni i wneud hyn yn dda.



Mae deddf newydd sy'n cael ei alw'n **Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru)** yn meddwl bod gan bobl ag anabledd dysgu sy'n byw mewn cartrefi sydd â chymorth hawliau cryfach.

## 3. Pobl anabl yn gwneud y dewis ynglŷn â'r gofal a'r cymorth y maen nhw'n ei gael



Mae'n rhaid i awdurdodau lleol wrando ar yr hyn mae ar bobl anabl ei eisiau mewn gofal a chefnogaeth. Mae arnyn nhw angen dod o hyd i'r ffordd orau o roi'r gefnogaeth sydd ar pobl anabl ei eisiau.

## 4. Technoleg sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn



Mae **technoleg sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn** yn meddwl offer sy'n eich helpu i wneud pethau ac aros yn annibynnol. Er enghraifft, cyfrifiadur i'ch helpu i siarad neu larwm rhag ofn i chi syrthio.



Fe wnaethon ni roi ffyrdd i grwpiau anabledd gefnogi eu haelodau i ddefnyddio technoleg fel cyfrifiaduron.



Bydd **GIG Cymru** ac awdurdodau lleol yn defnyddio'r un math o systemau cyfrifiadur. Bydd hyn yn ei gwneud hi'n haws rhannu gwybodaeth a chadw gyda'r oes â'r hyn sydd ar bobl ei angen.

## 5. Cludiant cyhoeddus da y gall pobl anabl ei ddefnyddio




Mae cwmnïau bysus yn cael arian gennym ni i redeg llawer o fysus. Fe ddywedon ni wrthyn nhw bod yn rhaid i fysus fod yn haws i bobl anabl eu defnyddio yn y dyfodol. Mae arnyn nhw angen gwneud hyn i gael arian gennym ni.

## 6. Adeiladau, strydoedd a mannau cyhoeddus hawdd eu defnyddio



Fe ddywedon ni wrth adeiladwyr a chynllunwyr sut y gallan nhw wneud adeiladau yn haws i bobl anabl eu defnyddio. Fe wnaethon ni gynnal hyfforddiant yn ymwneud â hyn.

## 7. Mwy o swyddi ar gyfer pobl anabl




Rydyn ni'n rhoi arian i gwmnïau i helpu pobl gael hyfforddiant a dod o hyd i waith. Rydyn ni'n gwneud yn siŵr bod y cwmnïau hyn yn gweithio i gefnogi pobl anabl hefyd.



Fe fyddwn ni'n dal i dalu am bobl oedd yn arfer gweithio i **Remploy**. Fe fyddwn ni'n gwneud hyn tan 2019.

## 8. Cefnogi mudiadau pobl anabl

Rhwng 2015 a 2016 rydyn ni wedi rhoi arian ar gyfer dau brosiect sy'n cefnogi byw'n annibynnol:



- Mae ar Galluogi Cymru eisiau mwy o grwpiau ar gyfer pobl anabl sy'n cael eu harwain gan bobl anabl. Maen nhw wedi cynnal hyfforddiant ar gyfer pobl anabl ynglŷn â'u hawliau. Maen nhw wedi cefnogi pobl anabl i ymwneud mwy â chynllunio gwasanaethau.



- Mae'r prosiect cynhwysiant synhwyraidd ar gyfer pobl sydd ddim yn gallu gweld na chlywed yn dda. Maen nhw wedi dweud eu hanes ar gyfer y gwasanaethau cymdeithasol. Mae hyn yn helpu'r gwasanaethau cymdeithasol ddeall sut fath o beth yw bywyd os na fedrwch chi weld neu glywed yn dda.



Rydyn ni hefyd wedi talu i staff awdurdodau lleol gael hyfforddiant am gydraddoldeb a hawliau i bobl anabl.

# Amcan 6:



## Gwneud yn siŵr bod gwasanaethau cyhoeddus yn siarad â phobl sy'n defnyddio'u gwasanaethau

Mae gwasanaethau cyhoeddus yn bwysig iawn i bobl yng Nghymru. Maen nhw'n eich cadw chi'n:



- ddiogel




- yn iach ac



- yn gwneud yn siŵr bod gennych chi rywle i fyw.



Mae'n rhaid i ni wneud yn siŵr bod gwasanaethau cyhoeddus yn rhoi'r hyn sydd ei angen arnoch i chi. Mae'n rhaid i ni wneud yn siŵr bod gwasanaethau cyhoeddus yn hawdd i bawb eu defnyddio.

# Y pethau rydyn ni wedi'u gwneud

## 1. Gwasanaethau iechyd



Mae archwiliad iechyd i bobl dros 50. Gallwch ei wneud ar y rhyngrwyd neu dros y ffôn gyda **Galw Iechyd Cymru**. Mae'n eich helpu i weld sut y gallwch chi wella eich iechyd a'ch lles mewn ffyrdd hawdd.



Fe ysgrifennon ni gyngor ar gyfer y gwasanaethau iechyd ynghylch sut i roi gwell gofal iechyd i Sipsiwn a Theithwyr.



Yn 2016 fe ysgrifennon ni gynllun newydd ar gyfer **ffoaduriaid** a **cheiswyr lloches**.

Mae **Ffoaduriaid** yn bobl oedd yn gorfod gadael eu gwlad ac yn methu mynd adref yn ddiogel.

Mae **ceiswyr lloches** yn bobl sy'n gadael eu gwlad er mwyn ffoi rhag perygl. Maen nhw'n gofyn caniatâd i gael byw mewn gwlad arall.



Mae'n bwysig bod ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn cael defnyddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae arnyn nhw angen archwiliad iechyd pan fyddan nhw'n cyrraedd. Fe allan nhw fod angen gwasanaethau iechyd meddwl. Mae'n rhaid i ni roi digon o arian ar gyfer hyn.

## 2. Gwasanaethau cartrefu



Mae ein **Rhaglen Cefnogi Pobl** yn helpu pobl sy'n ddigartref neu pobl sy'n debygol o fynd yn ddigartref. Mae arnon ni eisiau cefnogi pobl i:



- deimlo'n ddiogel



- ymdopi ag arian a'u lle eu hunain i fyw ynddo



- dod o hyd i hyfforddiant neu waith



- teimlo'n well ac yn hapusach.

Fe gefnogon ni dros 50 mil o bobl y flwyddyn hon.

## 3. Gwasanaethau Cymdeithaso



Mae **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)** yn ddeddf newydd. Mae'r ddeddf wedi'i seilio ar eich hawliau ac mae'n dweud bod cydraddoldeb yn bwysig iawn.




Yn 2016 fe ysgrifennon ni'r **côd ymarfer** a rheolau eraill ar gyfer y ddeddf.




Mae **côd ymarfer** yn rhoi rheolau a chyngor ynghylch deddf. Mae'n helpu awdurdodau lleol a phartneriaid wneud beth mae'r ddeddf yn dweud wrthyn nhw am wneud.



Mae'r côd yn dweud bod eiriolwyr yn bwysig. Nid yw'n hawdd i rai pobl gymryd rhan mewn gwneud cynlluniau ar gyfer eu bywydau. Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol wneud yn siŵr bod ganddyn nhw eiriolwr i'w helpu.



Mae'r ddeddf yn dweud hefyd bod byw'n annibynnol yn bwysig.



# Amcan 7:

## Gwneud yn siŵr bod pobl o wahanol gefndiroedd yn ymuno â'n cyrff cyhoeddus

Mae **cyrff cyhoeddus** yn rhedeg gwasanaethau ar gyfer Llywodraeth Cymru ond dydyn nhw ddim yn rhan o'r llywodraeth. Er enghraifft, Chwaraeon Cymru a Chyngor Gofal Cymru.



Mae'n bwysig bod gan ein cyrff cyhoeddus bobl o bob rhan o fywyd Cymreig.

## Y pethau rydyn ni wedi'u gwneud



Fe ofynnon ni beth y gallen ni wneud i gael pobl o wahanol gefndiroedd yn ein cyrff cyhoeddus. Fe anfonon ni gwestiynau i grwpiau a chynnal dau gyfarfod.




Mae'r wybodaeth y daethon ni o hyd iddi wrth wneud hyn ar ein gwefan. Fe fyddwn ni'n defnyddio hyn i'n helpu i gael pobl o wahanol gefndiroedd yn ein cyrff cyhoeddus.



Fe wnaethon ni brosiect ar gyfer ugain o bobl o wahanol grwpiau i fod ar gyrff cyhoeddus. Fe wnaethon ni roi hyfforddiant a chefnogaeth iddyn nhw. Rydyn ni'n edrych i weld pa mor dda mae'n gweithio.

# Amcan 8:

## Rydyn ni'n gwneud yn siŵr bod gan Lywodraeth Cymru weithwyr amrywiaethol



Rydyn ni'n dweud bod arnon ni eisiau cydraddoldeb. Mae hyn yn meddwl bod ar Lywodraeth Cymru angen bod mor amrywiaethol â phosibl.

## Y pethau rydyn ni wedi'u gwneud



Mae gennym ni grŵp newydd sy'n ysgrifennu cynllun ar gyfer cydraddoldeb yn Llywodraeth Cymru. Maen nhw'n siarad llawer â'n grwpiau amrywiaethol i wirio eu gwaith.



Mae gennym ni bedwar grŵp amrywiaethol ar gyfer staff. Maen nhw'n rhoi cyfle i bobl siarad â'i gilydd a chael cefnogaeth. Maen nhw hefyd yn rhoi cyngor i ni.

Y grwpiau yw:



- Cefnogaeth i'r anabl. Maen nhw'n helpu aelodau eraill o staff i ddeall sut brofiad yw gweithio ag anabledd.



- Grŵp o staff o **leiafrifoedd ethnig**. Maen nhw'n ein helpu ni i weld a ydyn ni'n cynnwys pobl o leiafrifoedd ethnig yn ein holl waith.



Mae **lleiafrifoedd ethnig** yn hil arbennig o bobl. Mae llai ohonyn nhw na phobl eraill. Er enghraifft, mae pobl Indiaidd yn grŵp lleiafrif ethnig yng Nghymru.




- Menywod ynghyd. Maen nhw'n ein helpu i weld beth sy'n gweithio'n dda i gefnogi menywod yn eu gwaith.



- Rhwydwaith staff 'PRISM' ar gyfer pobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol. Maen nhw'n helpu i wneud Llywodraeth Cymru yn lle diogel a chroesawgar i weithio ynddo. Fe helpodd eu gwaith caled nhw i ennill Rhwydwaith Cymreig y Flwyddyn.



Rydyn ni'n rhoi cyfle i wahanol bobl roi cynnig ar weithio i ni. Efallai y bydd hyn am ychydig wythnosau neu fisoedd yn unig. Y flwyddyn hon mae gennym ni brosiectau ar gyfer pobl o grwpiau lleiafrifoedd ethnig i roi cynnig ar weithio i ni.




# Beth nesaf?

Mae gennym ni gynllun cydraddoldeb newydd ar gyfer 2016-20. Fe siaradon ni â phobl ar draws Cymru ynghylch beth maen nhw’n feddwl sy’n bwysig i ni wneud.

Dyma’r 8 amcan cydraddoldeb newydd:



## Amcan 1

**Mae’n rhaid i grwpiau y mae pobl yn gwahaniaethu yn eu herbyn fod wrth galon cynllunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus.**

Yn enwedig:

- gwasanaethau iechyd a iechyd meddwl
- addysg – ysgolion a cholegau
- cartrefu
- gwasanaethau cymdeithasol
- cludiant



Mae’n rhaid i bobl anabl gael eu cefnogi gyda’u hawl i fyw’n annibynnol a chael llais, dewis a rheolaeth.



## Amcan 2

**Gwneud yn siŵr bod digon o wasanaethau cyngor, gwybodaeth ac eiriolaeth.**



Mae’r rhain yn eich helpu i ddeall eich hawliau a gwneud dewisiadau.

## Amcan 3

**Edrych pam y mae rhai grwpiau o bobl yn cael:**




- llai o gyfleoedd i gael swyddi da



- llai o dâl am yr un math o waith.

## Amcan 4



**Rhoi diwedd ar gam-drin a throsedd casineb fel bo Cymru yn lle mwy diogel i fyw ynddo.**

## Amcan 5




**Gwneud yn siŵr bod pobl o wahanol gefndiroedd yn ymuno â’n cyrff cyhoeddus.**



## Amcan 6

**Gwneud ein cymunedau'n gryfach trwy wneud yn siŵr:**

- bod gan bawb barch tuag at ei gilydd
- bod pawb yn cael ei gynnwys yn yr hyn sy'n mynd ymlaen.



## Amcan 7

**Cael llai o bobl sy'n dlawd. Gwneud bywyd yn well i bobl sydd heb fawr o arian, yn enwedig:**



- pobl anabl



- rhiant yn magu plentyn ar ei ben ei hun



- grwpiau lleiafrifoedd ethnig



- teuluoedd sydd â phlant anabl.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Amcan 8

**Bydd Llywodraeth Cymru yn anelu at fod yn lle rhagorol i weithio ar gyfer pobl o wahanol grwpiau.**

## Adroddiad ar gydraddoldeb gan Weinidogion Cymru




Mae Cymru ble mae pawb yn gyfartal yn bwysig i ni i gyd yn Llywodraeth Cymru. Rydyn ni'n gweithio ar gydraddoldeb mewn gwahanol ddeddfau a chynlluniau. Mae'r adroddiad hwn yn dweud wrthych chi sut y mae gwasanaethau cyhoeddus yn hyrwyddo cydraddoldeb yng Nghymru.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol




Yn 2016 daeth **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol** yn ddeddf. Mae'r ddeddf hon yn bwriadu gwneud Cymru cryf ac iach ble mae diwylliant Cymreig yn ffynnu. Rhan bwysig o hyn yw gwneud Cymru'n fwy cyfartal.



Rydyn ni'n archwilio i wneud yn siŵr bod cyrff cyhoeddus yn cadw at y ddeddf hon. Mae llawer o'r archwiliadau yn edrych sut y mae'r rhai y mae pobl yn gwahaniaethu yn eu herbyn yn ymdopi. Mae'r rhestr o bobl y mae'n bosibl gwahaniaethu yn eu herbyn ar dudalen .



Bydd gan bob awdurdod lleol grŵp newydd fydd yn cael ei alw'n **Fwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus**. Fe fyddan nhw'n ysgrifennu cynlluniau ar gyfer eu hardal i wneud bywyd yn well i bawb.



Rydyn ni'n disgwyl i'r **Bwrdd** edrych sut fath o fywyd mae pobl y mae'n bosibl gwahaniaethu yn eu herbyn yn ei gael. Mae'n rhaid iddyn nhw wedyn ddangos sut mae eu cynllun yn helpu i wneud bywydau'r bobl y mae'n bosibl gwahaniaethu yn eu herbyn yn well. Bydd hyn yn helpu Cymru fod yn gyfartal.

## Mwy o gynghorwyr amrywiaethol

Mae arnon ni angen cael mwy o amrywiaeth yn ein cynghorwyr lleol. Mae arnon ni angen mwy o:



- fenywod



- pobl o grwpiau lleiafrifoedd ethnig



- pobl ifainc – dan 45 mlwydd oed




Mae etholiadau lleol yn 2017. Mae arnon ni eisiau i fwy o bobl amrywiaethol sefyll i gael eu hethol. Fe ddechreuon ni brosiect yn 2014 i helpu gyda hyn.



Fe hysbysebon ni'r prosiect hwn mewn llawer o fannau. Fe siaradon ni â staff mewn gwahanol fusnesau a mudiadau ynghylch beth y mae cynghorwyr yn ei wneud.



Fe ddywedodd 46 o wahanol bobl ar draws Cymru bod ganddyn nhw ddiddordeb. Roedd y bobl o gefndiroedd amrywiaethol.



Fe wnaethon ni roi hyfforddiant iddyn nhw a'u cysylltu â chynghorwyr lleol. Fe aethon nhw gyda'r cynghorwyr i gyfarfodydd i ddysgu mwy am y gwaith.



Ar ôl y prosiect hwn dywedodd ugain o bobl yr hoffen nhw sefyll yn yr etholiadau lleol yn 2017.

## Archwilio cydraddoldeb yn ein gwaith




Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn dweud bod yn rhaid i ni archwilio pa mor dda rydyn ni'n effeithio ar gydraddoldeb yn ein holl waith. Fe weithion ni gyda **Chanolfan Cydraddoldeb a Hawliau Dynol y GIG** ac eraill ar ffyrdd newydd o wneud hyn.



Gall yr archwiliad newydd hwn gael ei ddefnyddio gan unrhyw wasanaeth cyhoeddus. Bydd yn rhoi llawer mwy o wybodaeth am bobl a chydraddoldeb yng Nghymru.

# Tâl menywod

Yn aml mae dynion yn ennill mwy na menywod. Mae llawer o resymau dros hyn gan gynnwys:



- y math o waith mae menywod yn ei wneud




- yr oriau mae menywod yn gweithio



- mae menywod fel arfer yn edrych ar ôl plant a phobl hŷn yn y teulu.



Gwnaeth arian o Ewrop dalu am brosiect i feddwl sut y gallen ni newid peth o hyn. Fe feddylion nhw am ffordd newydd o edrych ar y gwahaniaethau rhwng tâl dynion a menywod. Bydd hyn yn ein helpu i weld sut y gallwn ni wneud tâl yn fwy cyfartal.




Gyda'n hamcanion cydraddoldeb nesaf a'n deddfau newydd rydyn ni'n gweithio'n galed i wneud Cymru'n gyfartal.

# Geiriau anodd

## Amcanion cydraddoldeb
Mae amcanion cydraddoldeb yn bethau pwysig i wneud Cymru'n lle tecach i fyw ynddo.

## Amrywiaethol
Mae amrywiaethol yn meddwl cael pobl o wahanol grwpiau. Er enghraifft, dynion a menywod neu yr hen a'r ifanc.

## Awdurdod lleol
Yr awdurdod lleol yw'r Cyngor Sir. Maen nhw'n darparu llawer o wasanaethau fel gwasanaethau cymdeithasol, addysg a ffyrdd.

## Cam-drin yn y cartref
Mae cam-drin yn y cartref yn cynnwys rhywun yn dweud wrthych chi eich bod chi'n dda i ddim, rhywun yn pigo arnoch chi, cael eich dyrnu, cael eich taro, cael eich bygwth neu eich llofruddio gan rywun sy'n byw gyda chi neu rywun oedd yn arfer byw gyda chi.

Mae menywod, dynion a phlant i gyd yn gallu dioddef cam-drin yn y cartref. Mae'n gallu effeithio ar bobl o unrhyw oed neu gefndir.

## Ceisiwr lloches
Mae ceisiwr lloches yn berson sy'n gadael ei wlad er mwyn ffoi rhag perygl. Mae'n gofyn caniatâd i gael byw mewn gwlad arall.

## Côd ymarfer
Mae côd ymarfer yn rhoi rheolau a chyngor ynghylch deddf. Mae'n helpu awdurdodau lleol a phartneriaid wneud beth mae'r ddeddf yn dweud wrthyn nhw am wneud.

## Cydraddoldeb
Mae cydraddoldeb yn meddwl trin pobl yn deg a gwneud yn siŵr eu bod yn cael yr un cyfleoedd.

## Cyrff cyhoeddus
Mae cyrff cyhoeddus yn rhedeg gwasanaethau ar gyfer Llywodraeth Cymru ond dydyn nhw ddim yn rhan o'r llywodraeth. Er enghraifft, Chwaraeon Cymru a Chyngor Gofal Cymru.

### Dechrau'n Deg
Mae Dechrau'n Deg yn cefnogi plant 0-3 mlwydd oed mewn cymunedau tlawd. Mae'n cynnig dosbarthiadau i rieni, lle mewn meithrinfa am ddim a gofal iechyd ychwanegol.

### Deddf Cydraddoldeb
Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn dweud bod gan bawb yr hawl i:

- gael eu trin yn deg
- cael yr un cyfleoedd â phawb arall
- cael neb yn gwahaniaethu yn eu herbyn.

### Dynion a menywod deurywiol
Mae dynion a menywod deurywiol yn bobl sy'n cael eu denu gan ddynion a menywod.

### Dynion hoyw
Mae dynion hoyw yn ddynion sy'n cael eu denu gan ddynion eraill.

### Eiriolwr
Mae eiriolwr yn rhywun sy'n medru siarad ar eich rhan neu eich helpu chi i siarad drosoch chi eich hun.

### Ffoaduriaid
Mae ffoaduriaid yn bobl oedd yn gorfod gadael eu gwlad ac yn methu mynd adref yn ddiogel.

### Grant
Bydd rhywun yn cael grant pan fydd mudiad yn rhoi arian i helpu talu am rywbeth.

### Gwahaniaethu
Mae gwahaniaethu'n digwydd pan fyddwch chi'n cael eich trin yn annheg.

### Gwasanaethau cyhoeddus
Mae gwasanaethau cyhoeddus yn cynnwys iechyd, cartrefu, gwasanaethau cymdeithasol a chludiant.

### Lleiafrifoedd ethnig
Mae lleiafrifoedd ethnig yn hil arbennig o bobl. Mae llai ohonyn nhw na phobl eraill. Er enghraifft, mae pobl Indiaidd yn grŵp lleiafrif ethnig yng Nghymru.

### Menywod lesbiaidd
Mae menywod lesbiaidd yn fenywod sy'n cael eu denu gan fenywod eraill.

### Peirianneg
Mae peirianneg yn meddwl gwneud neu atgyweirio pethau fel peiriannau, injans, ffyrdd a phontydd.

### Pobl drawsrywiol
Mae pobl drawsrywiol wedi'u geni'n un rhyw ond sydd am fyw fel rhyw arall. Er enghraifft, gall person sy'n edrych fel dyn deimlo fel menyw y tu mewn.

### Technoleg
Technoleg yw pethau fel cyfrifiaduron, ffonau symudol ac offer eraill i helpu pobl i wneud pethau'n haws ac yn gyflymach.

### Technoleg sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn
Mae technoleg sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn meddwl offer sy'n eich helpu i wneud pethau ac aros yn annibynnol. Er enghraifft, cyfrifiadur i'ch helpu i siarad neu larwm rhag ofn i chi syrthio.

### Torri organau rhywiol menywod
Mae torri organau rhywiol menywod yn digwydd pan fydd rhannau preifat merch yn cael eu torri ac weithiau eu gwnïo i fyny. Mae hyn yn cael ei wneud oherwydd gwahanol resymau diwylliannol.

### Trais yn erbyn menywod
Mae trais yn rhywbeth sy'n brifo person arall. Mae trais yn erbyn menywod yn cynnwys:

- trais yn y cartref
- defnyddio rhyw i'ch brifo, eich rheoli neu eich dychryn chi
- treisio
- priodas orfod
- troseddau er dyletswydd.

### Trosedd casineb
Mae trosedd casineb yn digwydd pan fydd dioddefwr yn meddwl bod trosedd wedi digwydd oherwydd pwy ydyn nhw.

### Troseddau er dyletswydd
Mae troseddau er dyletswydd yn digwydd pan fydd rhywun yn cael ei gosbi oherwydd ei fod wedi mynd yn erbyn beth sydd ar y teulu neu'r gymuned ei eisiau. Gall hyn gynnwys llofruddiaeth.